# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 15 Hydref 2013** |
| Amser: | **09:00 – 10:34** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_15_10_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Sandy Mewies** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Stephen Martin, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Meilyr Rowlands, Estyn**<br>**Gillian Body, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Paul Dimblebee, Cyfarwyddwr Grŵp – Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

2.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gyda Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon'. Roedd Stephen Martin o Swyddfa Archwilio Cymru a Meilyr Rowlands o Estyn yno gyda'r Archwilydd Cyffredinol. Yn ystod y sesiwn friffio, cafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nodwyd y papurau.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Aelodau i drafod y materion a godwyd gan adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i'r 'Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon'.

## 6 Rheoli Grantiau yng Nghymru: Trafod y cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

6.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd i adolygu'r sefyllfa ar ôl i adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau, a ddisgwylir ym mis Rhagfyr 2013, gael ei gyhoeddi.

## 7 Argyfyngau Sifil yng Nghymru: Trafod y cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

7.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd y byddai'r Clerc yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gael eglurhad o'r materion a godwyd yn ei gyngor.

## 8 Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen: Trafod y cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru

8.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a bwriad Swyddfa Archwilio Cymru i fonitro'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn diweddaru ac yn egluro cynnydd gyda gweithredu argymhellion y Pwyllgor.